O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 82

Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026

Gwnaed	*11 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*13 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 82

The Representation of the People Act 1983 (Security Expenses Exclusion) (Amendment) (Wales) Order 2026

Made	*11 March 2026*
Coming into force	*13 March 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 82

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Atodlen 4A i Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2) yn manylu ar y treuliau y mae rhaid i ymgeiswyr roi cyfrif amdanynt yn etholiadau Seneddol y DU ac mewn etholiadau llywodraeth leol, gan gynnwys etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae paragraff 13A, a fewnosodwyd gan reoliad 4(1) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Treuliau Etholiad ac Eithriadau) 2024 (O.S. 2024/428), yn darparu ar gyfer eithriad cyffredinol ar gyfer treuliau rhesymol yr eir iddynt ac y gellir eu priodoli yn rhesymol i ddiogelu personau neu eiddo, ac eithrio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff 13A fel bod yr eithriad yn gymwys mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 82

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026

Gwnaed	*11 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*13 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 15(1) o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 15(3) o Atodlen 4A i'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan baragraff 15(2) o Atodlen 4A i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi, dod i rym a darpariaeth drosiannol

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mawrth 2026.

(3) Er bod y Gorchymyn hwn yn dod i rym o dan baragraff (2), nid yw'n cael effaith mewn perthynas â'r canlynol—

(a) etholiad cynghorwyr i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol pe bai'r pôl yn cael ei gynnal, pe ceid gornest yn yr etholiad, cyn 7 Mai 2026;

(b) etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned pe bai'r pôl yn cael ei gynnal, pe ceid gornest yn yr etholiad, cyn 7 Mai 2026.

(**1**) 1983 p. 2. Mewnosodwyd paragraff 15 o Atodlen 4A gan adran 27(5) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22). Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchymyn o dan baragraff 15(1) i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddo.

Diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

2. Ym mharagraff 13A o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**2**) (eithriad diogelwch mewn cysylltiad â threuliau cymhwysol ar gyfer ymgeiswyr), hepgorer "Except in relation to a local government election in Wales,".

Jayne Bryant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
11 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**2**) Mewnosodwyd paragraff 13A gan reoliad 4(1) o O.S. 2024/428.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 82

LOCAL GOVERNMENT, WALES

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Representation of the People Act 1983 (Security Expenses Exclusion) (Amendment) (Wales) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Schedule 4A to the Representation of the People Act 1983 (c. 2) details the expenses that candidates must account for at UK Parliamentary elections and local government elections, including local government elections in Wales. Paragraph 13A, which was inserted by regulation 4(1) of the Representation of the People (Variation of Election Expenses and Exclusions) Regulations 2024 (S.I. 2024/428), provides for a general exclusion for reasonable expenses incurred that are reasonably attributable to the protection of persons or property, other than at local government elections in Wales. This Order amends paragraph 13A so that the exclusion applies in relation to local government elections in Wales.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government's website at www.gov.wales.

2026 No. 82

LOCAL GOVERNMENT, WALES

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Representation of the People Act 1983 (Security Expenses Exclusion) (Amendment) (Wales) Order 2026

Made	*11 March 2026*
Coming into force	*13 March 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 15(1) of Schedule 4A to the Representation of the People Act 1983(**1**), make the following Order.

In accordance with paragraph 15(3) of Schedule 4A to that Act, the Welsh Ministers have consulted with the Electoral Commission prior to the Order being made.

In accordance with the Senedd approval procedure applied by paragraph 15(2) of Schedule 4A to that Act, a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title, coming into force and transitional provision

1.—(1) The title of this Order is the Representation of the People Act 1983 (Security Expenses Exclusion) (Amendment) (Wales) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 13 March 2026.

(3) Despite the coming into force of this Order under paragraph (2), it does not have effect in relation to—

(a) an election of councillors to a county or county borough council if, in the event of an election being contested, the poll would take place before 7 May 2026;

(b) an election of councillors to a community council if, in the event of the election being contested, the poll would take place before 7 May 2026.

(**1**) 1983 c. 2. Paragraph 15 of Schedule 4A was inserted by section 27(5) of the Electoral Administration Act 2006 (c. 22). The power of the Secretary of State to make an Order under paragraph 15(1) was transferred to the Welsh Ministers by article 45 of, and paragraph 1 of Schedule 1 to, the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.I. 2018/644).

Amendment of the Representation of the People Act 1983

2. In paragraph 13A of Schedule 4A to the Representation of the People Act 1983(**2**) (security exclusion in respect of qualifying expenses for candidates), omit "Except in relation to a local government election in Wales,".

Jayne Bryant
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
11 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

(**2**) Paragraph 13A was inserted by regulation 4(1) of S.I. 2024/428.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839853-3

9 780348 398533